**Pleidleisiau A Thrafodion Dydd Mawrth, 14 Hydref 2003**

**Dechreuodd y Cyfarfod am 2pm**

**Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru**
Atebwyd y 9 cwestiwn cyntaf. Cafodd cwestiynau 5 a 9 eu grwpio ar gyfer eu hateb.

**2.45pm**
**Datganiad Busnes**
Bu i dros 10 Aelod wrthwynebu'r datganiad busnes.
**Cynhaliwyd pleidlais ar y datganiad busnes:**
O blaid 36; Ymatal 9; Yn erbyn 11; Cyfanswm 56
Cytunwyd ar y datganiad busnes

**2.56pm**
**Cynnig i gymeradwyo Cyfarwyddiadau sy'n ymwneud ag arfer pwerau o dan adran 7(2) o Ddeddf Iechyd a Meddyginiaethau 1998 o dan Reol Sefydlog 27**
*NDM1642 Karen Sinclair*
Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:
Yn ystyried egwyddor y Cyfarwyddiadau Mewn Perthynas ag Arfer Pwerau o dan Adran 7(2) o Ddeddf Iechyd a Meddyginiaethau 1988, y gosodwyd copi ohonynt yn y Swyddfa Gyflwyno ar 6 Hydref 2003.

**Cynhaliwyd pleidlais ar egwyddor y Gorchymyn**
O blaid 46; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 46
**Cymeradwywyd egwyddor y Gorchymyn**

*NDM1643 Karen Sinclair*
Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru gan weithredu o dan Reol Sefydlog 27.2(iii) yn cymeradwyo'r Cyfarwyddiadau Mewn Perthynas ag Arfer Pwerau o dan Adran 7(2) o Ddeddf Iechyd a Meddyginiaethau 1988, y gosodwyd copi ohonynt yn y Swyddfa Gyflwyno ar 6 Hydref 2003.

**Cynhaliwyd pleidlais ar y Gorchymyn**
O blaid 47; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 47
**Cymeradwywyd y Gorchymyn**

**2.59pm**
**Cynnig i ddirprwyo i Brif Weinidog Cymru swyddogaethau o dan Reoliadau Mabwysiadu Rhwng Gwledydd (Confensiwn Hague) 2003**
*NDM1644 Karen Sinclair*

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Gan weithredu o dan adran 62(1)(b) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1988, yn penderfynu dirprwyo holl swyddogaethau'r Cynulliad Cenedlaethol sydd yn Rheoliadau Mabwysiadu Rhwng Gwledydd (Confensiwn Hague) 2003 i Brif Weinidog y Cynulliad, ac eithrio'r rhai na ellir eu dirprwyo yn y modd hwn yn ôl y gyfraith.

Ni fydd unrhyw beth yn y cynnig hwn yn golygu y caiff goruchafiaeth awdurdod y Cynulliad llawn na rôl Pwyllgorau'r Cynulliad o ran gweithredu'r swyddogaethau uchod eu lleihau.

Caiff y swyddogaethau hyn eu dirprwyo gan ei gwneud yn hysbys y byddant yn cael eu dirprwyo ymhellach i'r Gweinidog priodol yn y Cynulliad ac i staff, fel y bo hynny'n briodol.

**Cynhaliwyd pleidlais:**
O blaid 50; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 50
**Derbyniwyd y cynnig**

**3.03pm**
**Dirprwyo swyddogaethau Deddf Iechyd (Cymru) 2003**
*NDM1645 Karen Sinclair*

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Gan weithredu o dan adran 62(1)(b) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, yn penderfynu dirprwyo holl swyddogaethau'r Cynulliad Cenedlaethol sydd yn Neddf Iechyd (Cymru) 2003 i Brif Weinidog y Cynulliad, ac eithrio'r rhai na ellir eu dirprwyo yn y modd hwn yn ôl y gyfraith.

Ni fydd unrhyw beth yn y cynnig hwn yn golygu y caiff goruchafiaeth awdurdod y Cynulliad llawn na rôl Pwyllgorau'r Cynulliad o ran gweithredu'r swyddogaethau uchod eu lleihau.

Caiff y swyddogaethau hyn eu dirprwyo gan ei gwneud yn hysbys y byddant yn cael eu dirprwyo ymhellach i'r Gweinidog priodol yn y Cynulliad ac i staff, fel y bo hynny'n briodol.

**Cynhaliwyd pleidlais:**
O blaid 53; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 53
**Derbyniwyd y cynnig**

**3.06pm**
**Cynnig i gymeradwyo Gorchymyn Deddf Iechyd (Cymru) 2003 (Cychwyn Rhif 1) 2003**
*NDM1646 Karen Sinclair*
Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:
Yn ystyried egwyddor Gorchymyn Deddf Iechyd (Cymru) (Cychwyn Rhif 1) 2003, y gosodwyd copi ohono yn y Swyddfa Gyflwyno ar 30 Medi 2003.

**Cynhaliwyd pleidlais ar egwyddor y Gorchymyn**
O blaid 54; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 54
**Cymeradwywyd egwyddor y Gorchymyn**

*NDM1647 Karen Sinclair*
Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:
1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau mewn perthynas â'r gorchymyn drafft, Gorchymyn Deddf Iechyd (Cymru) (Cychwyn Rhif 1) 2003, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a anfonwyd drwy'r e-bost at yr aelodau ar 7 Hydref 2003; ac

2. Yn cymeradwyo bod Gorchymyn Deddf Iechyd (Cymru) (Cychwyn Rhif 1) 2003 yn cael ei wneud yn unol â'r drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 30 Medi 2003.

**Cynhaliwyd pleidlais ar y Gorchymyn**
O blaid 53; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 53
**Cymeradwywyd y Gorchymyn**

**3.09pm**
**Cynnig i gymeradwyo Gorchymyn Bwyd (Coed Anis o Drydydd Gwledydd) (Rheolaeth Frys) (Cymru) (Dirymu) 2003**
*NDM1648 Karen Sinclair*
Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:
Yn cymeradwyo bod Gorchymyn Bwyd (Coed Anis o Drydydd Gwledydd) (Rheolaeth Frys) (Cymru) (Dirymu) 2003 yn cael ei wneud yn unol â'r drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a anfonwyd drwy'r e-bost at yr Aelodau ar 7 Hydref 2003.

*Sylwer: Nid oes Adroddiad gan y Pwyllgor Deddfau wedi'i osod mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn, gan fod Cabinet y Cynulliad wedi datgymhwyso'r gofynion gweithdrefniadol o dan Reol Sefydlog 22.27 (i), (ii) a (iii).*

**Cynhaliwyd pleidlais ar egwyddor y Gorchymyn**
O blaid 52; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 52
**Cymeradwywyd egwyddor y Gorchymyn**

*NDM1649 Karen Sinclair*
Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:
Yn ystyried egwyddor Gorchymyn Bwyd (Coed Anis o Drydydd Gwledydd) (Rheolaeth Frys) (Cymru) (Dirymu) 2003 , y gosodwyd copi ohono yn y Swyddfa Gyflwyno ac a anfonwyd drwy'r e-bost at yr Aelodau ar 7 Hydref 2003.

*Sylwer: Nid oes Adroddiad gan y Pwyllgor Deddfau wedi'i osod mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn, gan fod Cabinet y Cynulliad wedi datgymhwyso'r gofynion gweithdrefniadol o dan Reol Sefydlog 22.27 (i), (ii) a (iii).*

**Cynhaliwyd pleidlais ar y Gorchymyn**

O blaid 52; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 52
**Cymeradwywyd y Gorchymyn**

**3.11pm**
**Dadl ar y Strategaeth Chwaraeon "Dringo’n Uwch"**

**Daeth y Dirprwy Lywydd i’r Gadair**

*NDM1650 Karen Sinclair*

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi'r cysylltiad amlwg rhwng cymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgareddau hamdden egnïol, a iechyd a lles.

2. Yn croesawu ymrwymiad Llywodraeth Cynulliad Cymru i gynyddu lefelau cyfranogiad mewn chwaraeon a gweithgareddau hamdden egnïol.

3. Yn croesawu llwyddiant y cynllun nofio am ddim i blant ysgol a gynhaliwyd dros yr haf.

4. Yn croesawu cyhoeddi strategaeth ddrafft Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer chwaraeon a gweithgareddau hamdden egnïol: "Dringo'n Uwch".

**Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:**
**Gwelliant 1 - Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**
Ym mhwynt 3, dileu 'croesawu' a rhoi 'nodi' yn ei le

**Gwelliant 2 - Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**
Ychwanegu ar ddiwedd pwynt 3:
'ond yn cydnabod y gellid bod wedi'i wella'

**Gwelliant 3 - Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**
Ychwanegu ar ddiwedd pwynt 3:
‘ac yn cydnabod bod nofio yn un o nifer o weithgareddau hamdden daionus, o ran iechyd a lles, a ddylai fod ar gael am ddim i blant a phobl ifanc dan 16 oed yng nghyfleusterau hamdden yr awdurdodau lleol.'

**Gwelliant 4 - Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**
Ym mhwynt 4, dileu 'croesawu' a rhoi 'nodi' yn ei le

**Gwelliant 5 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**
Ychwanegu ar ddiwedd pwynt 4
', ac hefyd yn galw ar y Llywodraeth i sicrhau bod cyllid digonol yn cael ei ddarparu i gyflawni’r amcanion a amlinellir yn y strategaeth.'

**Gwelliant 6 - Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**
Ychwanegu ar ddiwedd pwynt 4:
'ond yn galw ar y Llywodraeth i wneud popeth o fewn ei gallu i gynorthwyo'r cyrff hynny sydd eisoes yn ceisio cynyddu lefelau cyfranogiad mewn chwaraeon yng Nghymru'

**Cynhaliwyd pleidlais:**
**Gwelliant 1**
O Blaid 11; Ymatal 0; Yn erbyn 46; Cyfanswm 57
**Gwrthodwyd Gwelliant 1**

**Gwelliant 2**
O Blaid 27; Ymatal 0; Yn erbyn 30; Cyfanswm 57
**Gwrthodwyd Gwelliant 2**

**Gwelliant 3**
O Blaid 16; Ymatal 11; Yn erbyn 30; Cyfanswm 57
**Gwrthodwyd Gwelliant 3**

**Gwelliant 4**
O Blaid 11; Ymatal 0; Yn erbyn 46; Cyfanswm 57
**Gwrthodwyd Gwelliant 4**

**Gwelliant 5**
O Blaid 16; Ymatal 0; Yn erbyn 40; Cyfanswm 56
**Gwrthodwyd Gwelliant 5**

**Gwelliant 6**
O Blaid 27; Ymatal 0; Yn erbyn 30; Cyfanswm 57
**Gwrthodwyd Gwelliant 6**

**Y cynnig**
O Blaid 46; Ymatal 0;Yn erbyn 11; Cyfanswm 57
**Derbyniwyd y cynnig**

**4.19PM**
**Dadl Plaid Leiafrifol: Y Ceidwadwyr**
*NDM1651 Jonathan Morgan (Canol De Cymru)*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn condemnio methiant Llywodraeth y Cynulliad i amddiffyn cefn gwlad Cymru, ac yn pwyso ar y Llywodraeth i gymryd camau i:

1. helpu pobl, yn arbennig pobl ifanc a phobl sy'n prynu am y tro cyntaf, i brynu eiddo yn eu cymunedau eu hunain;

2. helpu i sefydlu ac ymestyn y Gymraeg fel iaith gymunedol;

3. mynd i'r afael â dirywiad gwasanaethau fel ysgolion, cyfleusterau meddygol a fferyllwyr, swyddfeydd post, trafnidiaeth wledig, a phlismona yng nghefn gwlad Cymru.

**Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:**
**Gwelliant 1. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**
Yn llinell 1, ychwanegu 'cyson' ar ôl 'methiant'

**Gwelliant 2 - Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**
Yn llinell 1, dileu'r gair "amddiffyn" a rhoi "adfywio" yn ei le

**Gwelliant 3 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**
Dileu is-bwynt (i) a rhoi'r hyn a ganlyn yn ei le
'creu rhwydwaith o alluogwyr tai gwledig i weithio gyda chymunedau lleol er mwyn nodi anghenion lleol a datblygu atebion lleol.

**Gwelliant 4 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**
Ychwanegu ar ffurf is-bwynt (ii) newydd ac ailrifo'n unol â hynny:
2. Annog a chefnogi awdurdodau lleol i sicrhau cwota o dai cymdeithasol ym mhob datblygiad newydd.

**Gwelliant 5 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**
Ychwanegu ar ddiwedd is-bwynt (iii):
',drwy ymyrraeth y Llywodraeth yn y farchnad rydd'

**Gwelliant 6 - Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**
Ychwanegu is-bwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:
"sicrhau bod y grant arbennig ar gyfer ysgolion bach a gwledig yn cael ei ddefnyddio i helpu i ddatblygu cynlluniau lle mae ysgolion bach a gwledig yn gweithio gyda'i gilydd drwy ddulliau megis cysylltiadau anffurfiol, cydweithio, clystyru, ffedereiddio a rhwydweithio TG ac yn helpu'r ysgolion hyn i ddatblygu cynlluniau i gynyddu'r defnydd a wneir o adeiladau ysgolion at ddibenion cymunedol."

**Gwelliant 7 - Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**
Ychwanegu is-bwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:
"cyfoethogi'r economi wledig, ac adeiladu arni, o ran datblygu band eang, twristiaeth a diwydiant amaethyddiaeth hyfyw."

**Gwelliant 8 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**
Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:
Er mwyn cyflawni'r uchod, mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn galw ar Lywodraeth y Cynulliad i fabwysiadu polisi datblygu economaidd wedi'i dargedu'n rhanbarthol.

**Cynhaliwyd pleidlais:**

**Gwelliant 1**
O Blaid 21; Ymatal 0; Yn erbyn 36; Cyfanswm 57
**Gwrthodwyd Gwelliant 1**

**Gwelliant 2**
O Blaid 16; Ymatal 0; Yn erbyn 41; Cyfanswm 57
**Gwrthodwyd Gwelliant 2**

**Gwelliant 3**
O Blaid 16; Ymatal 0; Yn erbyn 41; Cyfanswm 57
**Gwrthodwyd Gwelliant 3**

**Gwelliant 4**
O Blaid 16; Ymatal 0; Yn erbyn 41; Cyfanswm 57
**Gwrthodwyd Gwelliant 4**

**Gwelliant 5**
O Blaid 16; Ymatal 0; Yn erbyn 41; Cyfanswm 57
**Gwrthodwyd Gwelliant 5**

**Gwelliant 6**
O Blaid 16; Ymatal 11; Yn erbyn 30; Cyfanswm 57
**Gwrthodwyd Gwelliant 6**

**Gwelliant 7**
O Blaid 27; Ymatal 0; Yn erbyn 30; Cyfanswm 57
**Gwrthodwyd Gwelliant 7**

**Gwelliant 8**
O Blaid 10; Ymatal 0; Yn erbyn 46; Cyfanswm 56
**Gwrthodwyd Gwelliant 8**

**Y cynnig**
O Blaid 27; Ymatal 0; Yn erbyn 30; Cyfanswm 57
**Gwrthodwyd y cynnig**

**Daeth y cyfarfod i ben am 5.30pm**

**……………………………………………..**

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am**

**2.00pm ddydd Mercher, 15 Hydref 2003**

**E P Silk**

**Clerc y Cynulliad**

## DOGFENNAU A GYFLWYNWYD ERS Y CYFARFOD LLAWN DIWETHAF

### Dogfennau a Osodwyd ar 10 Hydref 2003

- ☐ Adroddiad gan Bwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad: Gorchymyn Sbwriel (Cosb Benodedig) (Cymru) 2003 - LD2312
- ☐ Adroddiad gan Bwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad: Gorchymyn Cwn yn Baeddu (Cosb Benodedig) (Cymru) 2003 - LD2311

### Dogfennau a Osodwyd ar 8 Hydref 2003

- ☐ Cyngor Adeiladau Hanesyddol Cymru 47ain Adroddiad Blynyddol 2003-03 - LD2310

### Adroddiadau Pwyllgor a Osodwyd ar 07 Hydref 2003

- ☐ LC745 - Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth am Ddisgyblion Ôl-16 Unigol) (Cymru) 2003 - LD2303
- ☐ LC746 - Rheoliadau Addysg (Cymwysterau Athrawon a Safonau Iechyd) (Diwygiad Rhif 2) (Cymru) 2003 - LD2304
- ☐ LC747 - Gorchymyn Clwy Clasurol y Moch (Cymru) 2003 - LD2305
- ☐ LC748 - Gorchymyn Deddf Iechyd (Cymru) 2003 (Cychwyn Rhif 1) 2003 - LD2306
- ☐ LC749 - Cynllun Grantiau Ailstrwythuro'r Diwydiant Moch (Cymru) (Amrywio) 2003 - LD2307
- ☐ LC750 - Rheoliadau Bwyd (Tsilis Poeth a Chynhyrchion Tsilis Poeth) (Rheolaeth Frys) (Cymru) 2003 - LD2308
- ☐ LC751 - Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Lwfansau i Aelodau Cynghorau Sir a Chynghorau Bwrdeistref Sirol) (Dyfarndaliadau am Wasanaeth a Roddwyd) (Cymru) 2003 - LD2309